



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

## Llawlyfr Sut i Lenwi Ffurflen Cais Sengl (SAF) 2023 Ar-lein – Atodiad



Cynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru

© Hawlfraint y Goron 2023

ISBN 978-1-80535-726-1

28 Mawrth 2023

## Llawlyfr Sut i Lenwi Ffurflen Cais Sengl (SAF) 2023 Ar-lein – Atodiad

Dyma atodiad i Lawlyfr Sut i Lenwi Ffurflen Cais Sengl (SAF) 2023 Ar-lein a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2023. Mae newidiadau ac ychwanegiadau wedi'u gwneud i adran Manylion y Busnes – Math o Fenter yn y llyfryn gwreiddiol ac mae rhagor o arweiniad wedi'i ychwanegu i'r adran Tyfu er mwyn yr Amgylchedd.

Mae'r isod yn cymryd lle'r gwreiddiol:

### Mathau o Fenter

Ticiwch pob Math o Fenter sy'n berthnasol i'ch busnes ffermio.

Manylion y Busnes Mathau o Fenter < Yn ôl Nesaf >

---

Rhaid ateb pob eitem sydd â \*

---

Ticiwch bob menter sy'n berthnasol i'ch busnes ffermio: \*

<input type="checkbox"/> Cnydau âr	<input type="checkbox"/> Eidion
<input type="checkbox"/> Llaeth	<input type="checkbox"/> Glaswelltir / Pori yn unig
<input type="checkbox"/> Garddwriaeth	<input type="checkbox"/> Moch
<input type="checkbox"/> Dofednod dan do	<input type="checkbox"/> Dofednod awyr agored
<input type="checkbox"/> Ddefaid / Geifr	<input type="checkbox"/> Coetir
<input type="checkbox"/> Arall	

### Cnydau âr:

Ticiwch y fenter hon os oes gennych fel busnes dir sy'n cael ei drin i dyfu cnydau arno – gan gynnwys ar gyfer cnydau combein, cnydau sy'n cael eu tyfu am ffeibr, gwreiddgnydau, cnydau porthi anifeiliaid fel indrawn porthiant a rêp porthiant, llyisiau maes, blodau wedi'u torri neu fylbiau a ffrwythau meddal (ond nid cnydau parhaol\*).

\*Gweler diffiniad ar dudalen 17 o Lyfryn Rheolau Cais Sengl 2023 p'un a ydych yn tyfu cnydau i'w bwydo i anifeiliaid ar eich fferm eich hun neu a ydych yn gwerthu cnydau âr.

### Eidion:

Ticiwch y fenter hon os ydych fel busnes yn magu gwartheg ar gyfer eu cig ond nid i chi ei fwyta, naill ai trwy fuches sugno neu drwy brynu a magu lloi neu wartheg stôr neu ddefaid. Peidiwch â thicio'r blwch hwn os oes rhywun arall yn defnyddio'ch tir i bori neu gadw gwartheg.

### Llaeth:

Ticiwch y fenter hon os oes gennych fel busnes anifeiliaid sy'n cynhyrchu llaeth ond nid i chi ei yfed. Peidiwch â thicio'r blwch hwn os oes rhywun arall yn defnyddio'ch tir i bori neu gadw anifeiliaid godro.

### **Glaswelltir / Pori yn unig:**

Ticiwch y fenter hon os nad oes gennych eich anifeiliaid pori eich hun a'ch prif fenter yw lladd gwair, bêlio gwair a/neu silwair, gwerthu porthiant neu borfa/glaswellt, neu rentu'ch tir i ffermwyr eraill gael pori eu hanifeiliaid arno. Peidiwch â thicio'r blwch os oes gennych eich anifeiliaid ei hun sy'n cael eu defnyddio ar gyfer eu Llaeth, eu cig Eidion, Defaid neu fenter arall.

### **Garddwriaeth:**

Ticiwch y fenter hon os ydych yn cynhyrchu cnydau garddwriaethol masnachol. (Mae ffrwythau bwyta, llysiau, planhigion addurnol, blodau a meithrinfeydd coed i gyd yn gnydau garddwriaethol). Peidiwch â thicio'r blwch hwn os ydych yn tyfu llysiau i chi eu bwyta yn unig.

### **Moch:**

Ticiwch y fenter hon os ydych fel busnes yn magu moch ar gyfer eu cig neu eu bridio ac nid i chi eu bwyta. Peidiwch â thicio'r blwch hwn os oes rhywun arall yn defnyddio'ch tir i bori neu gadw moch.

### **Dofednod dan do:**

Ticiwch y fenter hon os ydych fel busnes yn magu dofednod dan do ar gyfer eu cig, eu hwyau neu eu bridio ond nid i chi eu bwyta. Peidiwch â thicio'r blwch hwn os oes rhywun arall yn defnyddio'ch tir i gadw dofednod dan do.

### **Dofednod awyr agored:**

Ticiwch y fenter hon os ydych fel busnes yn magu dofednod awyr agored ar gyfer eu cig, eu hwyau neu eu bridio ond nid i chi eu bwyta. Peidiwch â thicio'r blwch hwn os oes rhywun arall yn defnyddio'ch tir i bori neu gadw dofednod.

### **Defaid/Geifr:**

Ticiwch y fenter hon os ydych fel busnes yn magu defaid ar gyfer eu cig, eu bridio, eu llaeth neu eu gwlan ond nid at eich defnydd personol chi. Peidiwch â thicio'r blwch hwn os oes rhywun arall yn defnyddio'ch tir i bori neu gadw defaid/geifr.

### **Coetir:**

Ticiwch y fenter hon os oes gennych fel busnes goetir sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer gwerthu neu gyda'r bwriad o werthu cynnyrch coed. Byddai hynny'n cynnwys swm (h.y. mwy nag ychydig fagiau i gymdogion) o goed tân. Peidiwch â thicio'r blwch hwn os nad oes gennych goetir masnachol a/neu nad ydych yn gwerthu pren i bobl eraill.

**Noder** – Rydym yn ystyried Mentrau Coetiroedd fel menter gwerthu neu y bwriad i werthu cynhyrchion pren.

Os 'Arall' rhowch fanylion yn y blwch testun fel y dangosir yn y sgrinlun isod. Nodwch gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'ch prif fusnes ffermio yn unig.

Gall Mentrau 'Arall' gynnwys Ceffylau, Ceirw, Lamas, Alpacos ac ati. Nid oes angen datgan gweithgareddau anamaethyddol

### Manylion y Busnes Mathau o Fenter

[< Yn ôl](#) [Nesaf >](#)

Rhaid ateb pob eitem sydd â \*.

Ticiwch bob menter sy'n berthnasol i'ch busnes ffermio: \*

<input type="checkbox"/> Cnydau âr	<input type="checkbox"/> Eidion
<input type="checkbox"/> Llaeth	<input type="checkbox"/> Glaswelltir / Pori yn unig
<input type="checkbox"/> Garddwriaeth	<input type="checkbox"/> Moch
<input type="checkbox"/> Dofednod dan do	<input type="checkbox"/> Dofednod awyr agored
<input type="checkbox"/> Defaid / Geifr	<input type="checkbox"/> Coetir
<input checked="" type="checkbox"/> Arall	

Nodwch y manylion yma (dim mwy na 255 o nodau) \*

(0/255)

## Tyfu er mwyn yr Amgylchedd:

Dylech nodi cnydau sy'n cael eu plannu ar gyfer y Cynllun Tyfu er mwyn yr Amgylchedd yn yr Adran Data Caeau gan ddefnyddio cod perthnasol y cnwd sy'n cael ei blannu. Rhestrir y codau yn ADRAN 2 : CODAU DATGAN A DEFNYDDIO TIR.

**Pwysig:** ar gyfer yr opsiwn Gwyndwn Cymysg, dylech ddefnyddio cod y prif gnwd yn y cymysgedd hadau.

Os ydych yn sefydlu cnwd ar gyfer Cynllun Tyfu er mwyn yr Amgylchedd ar ôl 15 Mai, dylech nodi cod y cnwd yng ngholofnau'r **ail gnwd** a'r **mis plannu** yn yr adran Data Caeau.

### Manylion Parseli Tir

Help ar gyfer y Dudalen hon < Yn ôl Nesaf >

Yn ôl i'r rhestr Dileu Cae + Ychwanegu Cae

Cyfeirnod y Ddalen	Rhif y Cae	Enw'r Cae	Maint y Cae	Dod yn ôl.	Cynlluniau Datblygu Gwledig yr UE					
					Hawlio	GU	GO	GWCP	GCM	GCP
✓ [REDACTED]	[REDACTED]	[REDACTED]	0.81	<input type="checkbox"/>	Hawlio	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
					ACM <a href="#">Help</a>	0.81	0.81			

Nid oes angen braslap ar gyfer y cae hwn.

BPS		Cynlluniau Pontio Gwledig - OCS	
Arwynebedd Cymwys Mwyaf <a href="#">Help</a>	Arwynebedd a hawllir	Arwynebedd Cymwys Mwyaf <a href="#">Help</a>	Hawlio
0.81	0.81	0.81	<input checked="" type="checkbox"/>

Cnwd	Ar'dd	Hawlio BPS	Deiliadaeth <a href="#">Help</a>	Dyddiad Newid y Nodwedd <a href="#">Help</a>	Ail Gnwd <a href="#">Help</a>	Mis Plannu <a href="#">Help</a>	<a href="#">+ Ychwanegu cnwd</a>
GR2	0.81	<input checked="" type="checkbox"/>	0				<a href="#">Dilwch</a>

## **Manylion Cysylltu**

### **Ymholiadau gan Ffermwyr – Y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid**

Y lle cyntaf i'w ffonio neu ei e-bostio os oes gennych gwestiwn yw'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid lle bydd staff wrth law i roi gwybodaeth ac i ateb cwestiynau.

Gallwch ddefnyddio'r dudalen 'Negeseuon' yn eich cyfrif RPW Ar-lein i holi'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid. Fel arall, defnyddiwch y manylion cysylltu canlynol:

Ffôn: 0300 062 5004

Cyfeiriad Blwch Swyddfa Bost: Taliadau Gwledig Cymru, Blwch Post 251, Caernarfon, LL55 9DA

Bydd amserau agor y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid yn cael ei estyn yn ystod y ffenest ymgeisio fel a ganlyn:

- 1 Mawrth i 28 Ebrill 2023 (ac eithrio gwyliau banc):  
Llun i Gwener: 09:00am i 16:00pm
- 2 Mai i 15 Mai 2023:  
Llun i Iau: 09:00am i 17:00pm  
Gwener: 09:00 i 16:00

